Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Priory Talocher

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Priory Talocher

Ysgol arbennig annibynnol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anghenion cysylltiedig yw Ysgol Priory Talocher. Mae wedi'i lleoli ar gyrion Trefynwy, ac yn cael ei gweinyddu gan Wasanaethau Addysg Priory, sydd â thros 30 o ysgolion a cholegau arbenigol ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer hyd at 55 o ddisgyblion rhwng 7 ac 19 oed. Mae 44 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan bob un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae un deg pedwar o ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2013.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae gan staff a disgyblion yn yr ysgol berthnasoedd gweithio hynod gadarnhaol. Mae staff yn adnabod eu disgyblion a'u hanghenion dysgu ac ymddygiadol yn dda. Defnyddiant y wybodaeth hon yn fuddiol i gynllunio gwersi a dyfeisio adnoddau a gwahanol weithgareddau i ymgysylltu â disgyblion, cynnal eu diddordeb a gwella eu cynnydd.

Mae'r ysgol yn cryfhau ei gweithdrefnau ar gyfer gosod targedau a monitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Caiff ystod werthfawr o ddata ar berfformiad ei gasglu a'i ddefnyddio'n briodol i fonitro cynnydd disgyblion a chynllunio ymyriadau amserol. Mae'r gwaith hwn yn barhaus.

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn cymryd camau priodol i fireinio prosesau cynllunio gwelliant i roi cyfeiriad strategol cliriach i'r ysgol. Mae'r camau hyn yn cynnwys diwygio'r ffocws ar gyfer gosod targedau yn y system arfarnu staff ac yng nghynlluniau addysg unigol disgyblion.

### *Meysydd i'w datblygu*

Er bod yr ysgol wedi cyflwyno asesiadau safonedig rheolaidd i fonitro'r cynnydd y mae mwyafrif y disgyblion yn ei wneud o ran datblygu eu medrau darllen, nid yw lleiafrif o ddisgyblion wedi cwblhau asesiad darllen cychwynnol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn nodi cymorth priodol ar gyfer y disgyblion hyn, a monitro eu cynnydd.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o systemau a phrosesau newydd i gefnogi dysgu a datblygiad personol disgyblion yn well. Er mai megis dechrau datblygu y mae llawer o'r ddarpariaeth hon, ni chaiff cynllunio ar gyfer gwerthuso amserol ei nodi bob amser ym mhwyntiau gweithredu perthnasol cynllun datblygu'r ysgol.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Wella asesu medrau llythrennedd disgyblion ymhellach**

**A2. Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau newydd yn cael eu gwerthuso'n effeithiol**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr fod effaith rhaglenni darllen yn cael ei monitro a'i gwerthuso i lywio cynllunio datblygiad**

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r ysgol wedi cryfhau ei phrosesau i sicrhau bod rhaglenni darllen yn cael eu monitro'n effeithiol i lywio cynllunio gwelliant. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi prynu cynllun darllen ac offeryn asesu masnachol i ddarparu gwybodaeth safonedig ddibynadwy am gynnydd dros gyfnod. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol ar y cyfan i ddarparu sesiynau ymyrraeth a chymorth llythrennedd ar wahân, sy'n cael eu cydlynu ar draws yr ysgol i sicrhau dull cyson. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion wedi cwblhau asesiad darllen gwaelodlin.

**Argymhelliad 2: Rhoi system hylaw ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau difrifol a mesurau rheoli ychwanegol**

Mae'r ysgol wedi cyflwyno systemau gwybodaeth reoli newydd i olrhain a monitro cynnydd disgyblion mewn gwersi a'u hymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, a thu hwnt. Lansiwyd system wobrwyo ddiwygiedig ar draws yr ysgol, a chofnodir pwyntiau yn electronig mewn ffordd hylaw. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i staff gan rannu eu gwybodaeth ddyddiol am eu hagweddau at ddysgu a'u cynnydd ymddygiadol, a defnyddiant y wybodaeth hon yn aml i hunanreoleiddio a gwneud gwelliannau. Mae uwch arweinwyr a staff addysgu yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd ysgol gyfan a disgyblion unigol, a chynllunio ymyriadau a chymorth, lle bo'n briodol.

Ochr yn ochr â'r system wobrwyo, mae'r ysgol wrthi'n arbrofi â chronfa ddata newydd am ddisgyblion, sy'n dod â'r holl ddata am ddisgyblion at ei gilydd, gan gynnwys y systemau ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion mewn gwersi, a chofnodion digwyddiadau difrifol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gwerthuso effaith y datblygiad newydd hwn.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod targedau llythrennedd a rhifedd ar CAUau yn fyr, mesuradwy a phenodol i'r disgybl unigol**

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei systemau i osod targedau cynllun addysg unigol (CAU) ar gyfer disgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r systemau ar-lein newydd i gofnodi, rhannu ac olrhain cynnydd a gwybodaeth allweddol arall am CAUau disgyblion.

Erbyn hyn, mae CAU pob disgybl yn cynnwys targedau bach a mesuradwy mewn pedwar maes dysgu, ymddygiad a medrau bywyd a medrau cymdeithasol eraill. Mae'r targedau hyn yn benodol i bob disgybl ac maent yn gweithio ar y rhain gyda'u hathrawon dosbarth, staff cymorth a rhieni neu ofalwyr. Datblygiad diweddar yw'r system hon, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'i heffaith.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod targedau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion hŷn yn cael eu rhannu'n effeithiol i sicrhau dull cyson o ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm**

Mae'r ysgol wedi datblygu systemau addas i sicrhau dull mwy cyson o rannu targedau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion hŷn ar draws yr ysgol.  Mae'r systemau hyn yn cynnwys penodi mentor dysgu sydd â chyfrifoldeb penodol am gysylltu'n rheolaidd â staff disgyblion hŷn ar ddeilliannau sesiynau ymyrraeth a chymorth â llythrennedd a rhifedd.  Maent hefyd yn cynnwys staff o dimau addysg, gofal a thimau therapiwtig yn cyfarfod bob wythnos fel tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei rhannu, cynnydd disgyblion yn cael ei drafod, a bod y camau nesaf yn cael eu cynllunio'n briodol.

**Argymhelliad 5: Adolygu priodoldeb cloeon diogelwch y safle i wneud yn siŵr fod staff yn gallu symud yn gyflym rhwng ardaloedd**

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â diogelwch y safle i sicrhau bod pob un o'r staff yn gallu symud yn gyflym rhwng ardaloedd.  Bellach, mae cydbwysedd addas rhwng y systemau mynediad ffob ac un allwedd i sicrhau diogelwch a lles disgyblion a staff, yn ogystal â diogelwch digonol ar safle'r ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2019